COFNODION Y CYFARFOD

**Dyddiad:** Dydd Mercher 13 Medi 2000
**Amser:** 11.15am
**Lleoliad:** Ystafell y Dirprwy Lywydd (A3.10)

**Yn bresennol:** Y Dirprwy Lywydd, Cadeirydd
Y Trefnydd
Jocelyn Davies, Rheolwr Busnes Plaid Cymru
William Graham, Rheolwr Busnes y Blaid Geidwadol
Jenny Randerson, Rheolwr Busnes y Democratiaid Rhyddfrydol
John Lloyd, Clerc y Cynulliad
David Lambert, Cynghorydd Cyfreithiol Swyddfa'r Llywydd
Sherry Rees, Clerc y Pwyllgor Busnes
Marion Stapleton PS/ Y Trefnydd
Craig Stephenson, Ysgrifenyddiaeth y Siambr
Alun Gruffudd, PS/ Y Dirprwy Lywydd
Nerys Arch, Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol (eitem 8 ar yr agenda)
Jill Thomas, Y Swyddfa Gyflwyno (eitem 5 ar yr agenda)

## 1. Ymddiheuriadau

1.1 Dim.

## 2. Cofnodion y cyfarfod blaenorol

2.1 Trafodwyd yr eitemau hyn yn y cyfarfod ddydd Mawrth 12 Medi.

## 3. Materion yn codi

3.1 Trafodwyd y materion yn codi o'r cyfarfodydd blaenorol ar 11 ac 12 Gorffennaf yng nghyfarfod y Pwyllgor ddydd Mawrth 12 Medi.

## 4. Materion yn codi o'r cyfarfod llawn

4.1 Dim.

## 5. Cyngor i'r Cynulliad ar weithdrefnau

5.1 Roedd y Pwyllgor wedi ystyried y papur gan Swyddfa'r Llywydd/ Ysgrifenyddiaeth y Cabinet ar y dewisiadau ar gyfer newid ffurf cwestiynau llafar i'r Prif Ysgrifennydd (BC244-00). Adroddodd y Dirprwy Lywydd ar y sylwadau o'i chyfarfod cynharach â'r Llywydd. Roedd ef yn fodlon â'r trefniadau fel y maent ar hyn o bryd ac o'r farn fod y ddarpariaeth ar gyfer cwestiynau brys yn ddigonol. Nid oedd ef yn cefnogi'r syniad o symud cwestiynau i'r Prif Ysgrifennydd i fore Iau oherwydd bod y slot ar brynhawn

Mawrth yn ddechrau da i wythnos y Cynulliad. Fodd bynnag, roedd ef hefyd am glywed barn y Pwyllgor Busnes ar y mater.

5.2 Dywedodd y Trefnydd ei fod yn deall bod holl arweinwyr y pleidiau yn teimlo nad oedd y trefniadau presennol yn dderbyniol, a bod angen cwestiynau mwy amserol, gan fod y system ar hyn o bryd, yn caniatáu cwestiynau a gyflwynwyd bythefnos yn gynharach yn unig. Pwysleisiodd fod cwestiynau brys yn wahanol i gwestiynau amserol y dylid eu gofyn gan lefarydd o bob plaid ac nid gan arweinydd y blaid o reidrwydd. Cytunodd i drafod y mater ymhellach â'r Prif Ysgrifennydd ac adrodd yn ôl. Dywedodd Jocelyn Davies fod y trefniadau newydd i gyfyngu pob cwestiwn a'r cwestiynau atodol i dair munud wedi eu rhoi ar waith erbyn hyn. Dylai hyn olygu bod mwy o gwestiynau a chwestiynau atodol yn cael eu hateb. Awgrymodd y dylem ni weld sut bydd y trefniadau newydd yn gweithio yn y lle cyntaf ac adrodd yn ôl wedyn.

5.3 Roedd Jenny Randerson yn cytuno, ond ychwanegodd y gallai fod angen edrych eto ar y gofyniad bod y cwestiynau brys yn faterion brys, ac o bwys cenedlaethol, o ystyried bod cymaint o gwestiynau brys yn cael eu gwrthod. Dywedodd William Graham fod ei grŵp ef yn gwrthwynebu'r darpariaethau a amlinellwyd yn y papur oherwydd nad oedd y cynigion yn darparu ar gyfer cwestiynau mwy cyfoes. Cytunodd y Pwyllgor y dylid gohirio'r cynigion ar y papur am y tro.

## 6. Pwyllgorau

6.1 Trafododd y Pwyllgor bapur BC253-00 ar y canllawiau arfaethedig ar ddirprwyon ac ymddiheuro. Nodwyd bod Panel y Cadeiryddion eisoes wedi cymeradwyo'r papur. Roedd y Rheolwyr Busnes yn fodlon ar y canllawiau ac yn cytuno y gellid ei ddosbarthu i'r holl Aelodau ddydd Gwener. **Gweithredu: Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgorau i ddosbarthu'r canllawiau**

6.2 Cododd Jocelyn Davies fater arall mewn perthynas â threfniadau dirprwyon ar gyfer y Cyngor Partneriaeth Llywodraeth Leol oherwydd y caniatawyd i'w grŵp hi gael dirprwy ar un achlysur, ac y gwrthodwyd dirprwy ar achlysur arall. Cytunodd Marion Stapleton i wneud ymholiadau gyda'i chydweithwyr yn yr Is-Adran Llywodraeth Leol sy'n darparu gwasanaeth ysgrifenyddiaeth ar gyfer y Cyngor Partneriaeth ar y cyd â CLlLC.
**Gweithredu: Marion Stapleton**

## 7. Busnes y dyfodol

7.1 Trafodwyd y materion yn yr eitem hon yng nghyfarfod y Pwyllgor ddydd Mawrth 12 Medi.

## 8. Is-ddeddfwriaeth

### Gorchymyn Deddf Safonau Gofal 2000 (Cychwyn Rhif 1) 2000

8.1 Nododd y Pwyllgor Busnes bapur BC248-00 oedd yn cynnwys cyngor oddi wrth Jane Hutt, Ysgrifennydd y Cynulliad dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ynghylch ymdrin â'r Gorchymyn Rhan 2 uchod oedd wedi ei gyfeirio at y Pwyllgor Busnes er gwybodaeth.  Felly, nid oedd angen penderfyniad ynghylch ymdrin ag ef.

**<u>Gorchymyn Deddf Safonau Gofal 2000 (Cychwyn Rhif 1) (Cymru) 2000</u>**

8.2 Nododd y Pwyllgor Busnes bapur BC249-00 oedd yn cynnwys cyngor gan Jane Hutt, Ysgrifennydd y Cynulliad dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ynghylch ymdrin â'r Gorchymyn uchod. Dywedodd Aelodau'r Pwyllgor Busnes wrth y Dirprwy Lywydd eu bod yn fodlon ar gynnig Ysgrifennydd y Cynulliad i beidio ag anfon y Gorchymyn drafft at y Pwyllgor. Byddai hi'n gwneud penderfyniad ar ddiwedd y cyfarfod fel y gellid ei gyhoeddi i'r Cynulliad. **Penderfynodd y Dirprwy Lywydd nad oedd angen cyfeirio'r Gorchymyn at bwyllgor pwnc. (Gweithdrefn Frys)**

**<u>Gorchymyn Deddf Llywodraeth Leol (Cychwyn) 2000</u>**

8.3 Nododd y Pwyllgor Busnes bapur BC250-00 oedd yn cynnwys cyngor gan Peter Law, Ysgrifennydd y Cynulliad dros Lywodraeth Leol a Thai ar ymdrin â'r Gorchymyn uchod. Dywedodd Aelodau'r Pwyllgor Busnes wrth y Dirprwy Lywydd eu bod yn fodlon ar gynnig Ysgrifennydd y Cynulliad i beidio ag anfon y Gorchymyn drafft at y Pwyllgor.  Byddai hi'n gwneud penderfyniad ar ddiwedd y cyfarfod fel y gellid ei gyhoeddi i'r Cynulliad. **Penderfynodd y Dirprwy Lywydd nad oedd angen cyfeirio'r Gorchymyn at bwyllgor pwnc. (Gweithdrefn Safonol)**

**<u>Rheoliadau Addysg (Cyfyngu Cyflogaeth)(Cymru) 2000</u>**

8.4 Nododd y Pwyllgor Busnes bapur BC252-00 oedd yn cynnwys cyngor gan Rosemary Butler, Ysgrifennydd y Cynulliad dros Addysg a Phlant ar ymdrin â'r Gorchymyn uchod. Dywedodd Aelodau'r Pwyllgor Busnes wrth y Dirprwy Lywydd eu bod yn fodlon ar gynnig Ysgrifennydd y Cynulliad i beidio ag anfon y Gorchymyn drafft at y Pwyllgor.  Byddai hi'n gwneud penderfyniad ar ddiwedd y cyfarfod fel y gellid ei gyhoeddi i'r Cynulliad. **Penderfynodd y Dirprwy Lywydd nad oedd angen cyfeirio'r Gorchymyn at bwyllgor pwnc. (Byddai'r weithdrefn yn cael ei chymeradwyo ar ôl derbyn cyngor ynghylch gweithdrefnau ar gyfer unigolion sy'n destun adroddiad ar ôl iddynt ymddiswyddo ac sydd am apelio neu herio'r adroddiad) – Gweithredu: Marion Stapleton i ddosbarthu nodyn briffio**

8.5 Dywedodd y Trefnydd na fyddai'r *Seeds (National List of Varieties) Regulations 2000* (ar gael yn Saesneg yn unig) yn cael eu hystyried yn y cyfarfod llawn ar 14 Medi. Roedd yn gobeithio y byddai modd ail gyflwyno'r ddogfen ar ôl cyfnod y cynadleddau.

**<u>9.  Diwygio'r Rheolau Sefydlog</u>**

9.1 Gofynnodd y Dirprwy Lywydd a oedd gan y Rheolwyr Busnes adborth ar bapur BC246-00 a ddosbarthwyd y diwrnod blaenorol. Holodd Jenny Randerson ynghylch cyfrifoldeb dros gyflogau, ffioedd a lwfansau'r Aelodau gan ei bod yn bryderus y gallai droi'n bwnc gwleidyddol llosg. Dywedodd y Dirprwy Lywydd y gallai Pwyllgor newydd y Tŷ drafod materion o'r fath. Byddai hwn yn gorff pwysig iawn a fyddai'n cynghori'r Llywydd, Cadeirydd y Pwyllgor. Byddai'r newidiadau i'r Rheolau Sefydlog yn rhoi mwy o ryddid i Swyddfa'r Llywydd ac roedd y ddadl ar y newidiadau i'r Rheolau Sefydlog wedi ei threfnu ar gyfer 10 Hydref. Cytunwyd y byddai Sherry Rees yn drafftio adroddiad y Pwyllgor Busnes ar y newidiadau arfaethedig i'w gymeradwyo trwy ohebiaeth cyn y dyddiad cyflwyno ddydd Mawrth 3 Hydref. **Gweithredu: Sherry Rees**

**<u>10. Dyfarniadau'r Llywydd</u>**

10.1 Dim

**<u>11. Unrhyw fater arall</u>**

11.1 Nododd y Pwyllgor bapur BC247-00 oedd yn cynnwys manylion rhaglen ddrafft ar gyfer ymweliad y Pwyllgor â Thŷ'r Cyffredin ddydd Mercher 1 Tachwedd.

11.2 Ystyriodd y Pwyllgor gais gan J Barry Jones o Ganolfan Llywodraethu Cymru (BC251-00) i archwilio rôl Pwyllgor Busnes y Cynulliad. Roedd y Trefnydd y gryf o blaid y cais a chytunodd y Pwyllgor ag awgrym y Dirprwy Lywydd y dylai hi a Marie Knox gwrdd â Barry Jones i sicrhau manylion y cynnig a gofyn iddo lunio cynnig manwl y gallai'r Pwyllgor ei ystyried.
**Gweithredu: Y Dirprwy Lywydd i ymateb i J Barry Jones**

11.3 Dywedodd y Dirprwy Lywydd bod y Llywydd yn gobeithio trefnu egwyl o bum munud, ar adeg gyfleus, yn ystod pob cyfarfod llawn. Ychwanegodd hefyd, gan nad oedd y Rheolau Sefydlog yn dynodi amser gorffen ar gyfer sesiynau'r bore, ei fod wedi gofyn i gyfarfodydd llawn fore Iau orffen fel arfer erbyn 1.30pm, ond y gallant bara'n hirach os byddai'r Pwyllgor Busnes wedi cytuno wythnos ymlaen llaw. Gofynnodd y Pwyllgor am bapur yn dehongli'r Rheolau Sefydlog mewn perthynas â phennu amser gorffen ar gyfer cyfarfodydd llawn dydd Iau – gan gymryd barn y Llywydd i ystyriaeth.
**Gweithredu: Ysgrifenyddiaeth y Siambr**

**YSGRIFENYDDIAETH Y SIAMBR**